



**YSGOL GYNRADD LLANDEGFAN  
LLANDEGFAN, YNYS MÔN, LL59 5UW**



Ffôn/Tel: 01248 713431

Ebost/Email: [pennaeth.llandegfan@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.llandegfan@ynysmon.gov.uk)

Safle'r Rhyngwrwd/Website: <http://ysgolllandegfan.cymru/index.html>

Pennaeth / Headteacher: Mr D Hood

**Cylchlythyr/Newsletter 2 – 15.11.17**

Dyddiadur Digwyddiadau	Diary of Events
<p>Ymddiheuriadau – mae yna ambell gamgymeriad yn y dyddiadur digwyddiadau – dyma'r dyddiadau cywir:</p> <p>Cyngerdd Nadolig – 13/12/17 Noson Ffilm – 21/12/17</p>	<p>Apologies – there are some mistakes with the dates for the below events. Correct dates are noted here:</p> <p>Christmas Concert – 13/12/17 Film Night – 21/12/17</p>

Panto	Panto
<p>Diolch i bawb am ymateb mor brydlon ac ymhellach i'r rhai sydd wedi talu. Gofynnwn yn garedig i bawb nad ydynt wedi talu y £15 i wneud hyn erbyn Dydd Gwener 24/11/17. Diolch</p>	<p>Thank you to everybody for your swift reply regarding the trip and a big thank you to everybody who has already paid. I kindly ask that the full cost of £15 is needed no later than 24/11/17. Thank You</p>

Manylion Cyswllt	Contacts Details
<p>Gwerthfawrogwn eich ymrwymiad i'n hysbysu o unrhyw newidiadau mewn manylion cyswllt. Gall hyn fod yn rifau ffôn, ebost neu newid mewn cyfeiriad. Os ydych yn credu ein bod gyda manylion cyswllt anghywir a fydddech cystal â chysylltu gyda'r ysgol mor fuan a phosib i newid hyn. Diolch</p>	<p>We appreciate that you keep us updated with contact details and if they change. These details might include a change in phone numbers, emails or in address. If you believe that your details have changed since the last letter and we have not been informed could you do so as soon as possible please. Thank You</p>

Cinio Ysgol	School Dinners
<p>Nodyn i atgoffa fod gan ddisgyblion yr hawl i ddewis os ydynt yn cael cinio neu frechdanau yn yr ysgol yn ddyddiol. Wedi dweud hyn, mae disgwyl i bawb dalu eu dyledion cinio yn wythnosol. Ar hyn o bryd mae dyled cinio yr ysgol yn enfawr a byddwn yn parhau i'ch llythyru hyd nes bydd hyn wedi ei glirio. Yn amlwg bydd rhai achosion o lythyr yn mynd allan ar Ddydd Gwener gyda dim ond wythnos o ddyled – deallwn efallai eich bod yn bwriadu ei dalu ar y penwythnos ac felly dylid defnyddio'r llythyr fel nodyn atgoffa. Os na fydd y ddyled wedi ei glirio yn llawn ar ôl amryw lythyr byddwn yn hysbysu'r Sir ac ni fydd yn bosib i'ch plentyn dderbyn cinio ysgol hyd nes bydd hwn wedi ei glirio.</p>	<p>A note to remind parents that pupils have the right to choose on a daily basis if they have school dinners or sandwiches. Having said this we do expect parents to pay on a weekly basis for the amount of dinners they have received that week. At present the school dinner debt is large and we will continue to letter parents with a debt on a weekly basis. We understand that you will receive letters on a Friday sometimes with only that week's debt. We understand in these circumstances that you might intend to pay on the weekend and therefore if this is the case, you should treat this letter as a reminder. If the debt continue to be unpaid then further letters will be sent out and if the debt continues to be unpaid in full, the debt will be discussed with the authority and then until the debt is fully paid your child will not be allowed access to school dinners.</p>



**YSGOL GYNRADD LLANDEGFAN  
LLANDEGFAN, YNYS MÔN, LL59 5UW**



Ffôn/Tel: 01248 713431

Ebost/Email: [pennaeth.llandegfan@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.llandegfan@ynysmon.gov.uk)

Safle'r Rhyngwrwyd/Website: <http://ysgolllandegfan.cymru/index.html>

Pennaeth / Headteacher: Mr D Hood

Clwb Gofal a Brecwast	Half Term
<p>Er gwybodaeth Mae clwb gofal yn rhedeg pob bore yma yn yr Ysgol rhwng 8 a 8:25 ar gost o 75c y disgybl, y diwrnod. Os hoffech fanteisio ar hyn cysylltwch gyda'r Ysgol. Yn ogystal mae clwb brecwast ar gael o 8:25 ymlaen ac mae hwn am ddim. Croeso i unrhyw didsgybl fynychu ond gwerthfawrogwn petaech yn cysylltu gyda'r ysgol i ddangos diddordeb.</p>	<p>For your information We have a morning care club running every morning between 8 and 8:25 at a cost of 75p per pupil per day. If you wish to take advantage of this contact the school. Also, we have a breakfast club which runs from 8:25 onwards and this is for free. There is a warm welcome to all the pupils but we kindly ask that you express an interest by contacting the school.</p>

Nosweithiau rhieni	Parent's Evening
<p>Diolch yn fawr iawn i chi gyd am fynychu'r nosweithiau rhieni ac am fod yn amyneddgar mewn rhai achosion gyda phroblemau ar y sytem. Gobeithio eich bod yn gwethfarwogi ein adroddiad cynnydd newydd sydd wedi ei dylunio i roi mwy o wybodaeth i chi ynghylch eich plant tra yn yr ysgol. Bydd dwy noson rhieni eto yn cael eu trefnu, un o amgylch y Pasg a'r llall adeg yr adroddiadau. Bydd cyfle yn y rhain i edrych a thrafod gwaith eich plant. Os nad ydych wedi gallu mynychu'r nosweithiau rhieni, bydd yr adroddiad cynnydd yn cael ei yrru adref yr wythnos yma.</p>	<p>A big thank you to everybody that attended parents evening and for being patient in some circumstances with issues we had with the online booking system. We hope you appreciate our new progress report card, which is designed to give you more information regarding other aspects of your child's education. There will be two other parents evening organised, one around Easter and the other with the end of year reports. In these sessions you will have time to look through your child's work and discuss if you wish. If you have not been able to attend this parents evening, the progress report card will be sent home by the end of the week.</p>

Tir yr Ysgol	School Grounds
<p>Nodyn i atgoffa:</p> <p>Fel y gwyddoch, ar hyn o bryd mae tri mynediad gwahanol i'r ysgol gyda'r giatiau hyn yn agored yn ystod y dydd. Fel y gallwch ddychmygu, mae hyn yn peri pryder i ni fel ysgol o ran diogelwch y safle. Ein bwriad yw ystyried cau giatiau'r ysgol sydd wedi eu lleoli yng nghefn yr adeilad ac ar waelod y cae rhwng 9yb a 3yh. Bydd y giatiau yma yn agored cyn ac ar ôl yr amseroedd yma. Bydd hyn yn fater sydd yn cael ei drafod yn ein cyfarfod llywodraethol nesaf ac mae'r Cadeirydd yn gofyn, os oes ganddoch unrhyw sylwadau i lythyru y Corff drwy'r Ysgol erbyn y 24 o</p>	<p>Reminder:</p> <p>As you also may be aware, we have three entrances to the school grounds which are open during the school day. As you can imagine this causes us as a school a great worry in regards to pupil safety whilst on the school grounds. Our intention is to lock the gates located behind the school and at the end of the field between 9am and 3pm. The gates would still remain open either side of these times. This will be a matter discussed at the next governors meeting and the Chair has requested that if you wish to comment about the above matter, to letter the Governors</p>

**YSGOL GYNRADD LLANDEGFAN  
LLANDEGFAN, YNYS MÔN, LL59 5UW**



Ffôn/Tel: 01248 713431

Dachwedd.

through the school by the 24<sup>th</sup> of November.

Pennaeth / Headteacher: Mr D Hood